



**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)**  
**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 2.5.19**  
**yn Venue Cymru, Llandudno**

**Yn bresennol:**

|                   |  |
|-------------------|--|
| Mr M Polin        | Cadeirydd ( <i>Rhan o'r cyfarfod</i> )   |
| Mr G Doherty      | Prif Weithredwr (rhan o'r cyfarfod)  |
| Cyng C Carlisle   | Aelod Annibynnol ( <i>rhan o'r cyfarfod</i> )                                    |
| Mrs D Carter      | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth                          |
| Mr J Cunliffe     | Aelod Annibynnol   |
| Mr G Evans        | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd, Cadeirydd, Fforwm y Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd |
| Mrs S Green       | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol                      |
| Mrs S Hill        | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid  |
| Mrs J Hughes      | Aelod Annibynnol   |
| Mrs M W Jones     | Is-gadeirydd   |
| Mrs G Lewis-Parry | Ysgrifennydd y Bwrdd   |
| Dr E Moore        | Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol   |
| Miss T Owen       | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ( <i>rhan o'r cyfarfod</i> )            |
| Mrs L Reid        | Aelod Annibynnol   |
| Mr A Roach        | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd - Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu          |
| Mr C Stockport    | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned                  |
| Mr Ff Williams    | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd - Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid                 |
| Mrs H Wilkinson   | Aelod Annibynnol   |
| Mr M Wilkinson    | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad                                 |

**Yn Bresennol:**

Mrs K Dunn                      Pennaeth Materion Corfforaethol  
 Cyfieithydd, Aelodau o'r Cyhoedd, ac arsyllwyr

| Eitem ar yr Agenda   | Gweithredu gan |
|--|----------------|
| <p><b>19.67 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd</b></p> <p><b>19.67.1</b> Croesawodd yr Is-Gadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd ac y byddent yn ymuno â'r cyfarfod yn nes ymlaen.</p> <p><b>19.67.2</b> Cymerodd yr Is-Gadeirydd y cyfle i dynnu sylw at adolygiad sydd wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar ar wasanaeth mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf. Fe gododd yr adolygiad nifer o bryderon am ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac mae gwasanaethau mamolaeth Cwm Taf wedi'u rhoi o dan fesurau arbennig. Mae gofyn i bob Bwrdd Iechyd ddarparu adroddiad sicrwydd mamolaeth i Lywodraeth Cymru cyn pen y pythefnos nesaf. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Nyrsio a Bydwreigiaeth bod adroddiad Cwm Taf yn ddigalon fodd bynnag rhoddodd y cyfle i Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr brofi ei systemau ei hun yn erbyn yr argymhellion. Byddai ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn ystyried gwasanaethau mamolaeth sydd wedi'u comisiynu gan sefydliadau darparu eraill.</p> |                |

|  |     |
|--|-----|
| <p><b>19.68 Mesurau Arbennig</b></p>   |     |
| <p><b>19.68.1 Adroddiad Sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen</b></p> <p>Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15.4.19, a chafodd ei nodi.</p>  |     |
| <p><b>19.68.2 Adroddiad Drafft Trosolwg Fframwaith Gwelliannau Mesurau Arbennig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Mis Hydref 2018-Mis Mawrth 2019.</b></p> <p><b>19.68.2.1</b> Cyflwynodd Ysgifennydd y Bwrdd yr adroddiad, gan dynnu sylw at y wybodaeth sydd wedi'i grynhoi yn y pwyntiau bwled ar y daflen flaen. Er bod cynnydd da wedi'i wneud mewn nifer o feysydd, roedd heriau sylweddol yn parhau. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys ymateb i bob un o'r disgwyliadau penodol a oedd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru ynghyd â hunanasesiad o ran p'un ai oedd y disgwyliad wedi'i fodloni neu beidio.</p> <p><b>19.68.2.2</b> Cyfeiriodd aelod at baragraff 4.1.30 a oedd yn nodi bod staff o'r gwasanaeth seicoleg hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid. Datganodd ddi-ddordeb bod ei wraig yn gyn seicolegydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ond gofynnodd i gywirdeb y datganiad hwn gael ei wirio ac i'r geiriad gael ei ddiwygio os nad dyma'r achos. Cyfeiriodd hefyd at baragraff 4.1.31 a oedd yn nodi bod "dros 60% o argymhellion HASCAS/Ockenden un ai wedi'u cwblhau, neu bron a'u cwblhau" ac fe awgrymodd y dylid ymestyn yr adran hon i ddynodi pa argymhellion oedd wedi'u cwblhau neu heb eu cwblhau. Teimlai hefyd y gellir cryfhau adran 4.2 ar gynllunio strategol a gwasanaeth drwy ddynodi'r bylchau yn y strategaeth gwasanaethau clinigol yn glir.</p> <p><b>19.68.2.3</b> Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Gofal Cychwynol a Chymuned at ddad-ddwysau gwasanaethau Meddyg Teulu y tu allan i oriau a chroesawodd y gydnabyddiaeth gadarnhaol o'r llwyddiant. O ran y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, ychwanegodd bod y sefydliad yn awr yn gliriach ac yn deall rhai o'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar unigolion o ran eu penderfyniad i weithio yng Ngogledd Cymru neu beidio, a bod cadw staff wedi gwella. Tynnodd sylw hefyd at y cynnydd positif o ran bod pob lle cymwys ar y rhaglen hyfforddiant i Feddygon Teulu Gogledd Cymru wedi'i llenwi a bod tair meddygfa a reolir yn Wrecsam yn dychwelyd i fod yn wasanaethau meddygol cyffredinol.</p> <p><b>19.68.2.4</b> Croesawodd yr aelodau'r cynnydd sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad ond ei fod yn siomedig bod y sefydliad yn parhau mewn mesurau arbennig. Gwnaed sylw bod gwaith i'w wneud o ran cryfhau dysgu o bryderon a gallu rhoi tystiolaeth o hyn ar draws y sefydliad. Bydd pob pwynt a godwyd yn cael eu hystyried cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno.</p> <p><b>19.68.2.5 Penderfynwyd</b> y byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> | GLP |
| <p><b>19.69 Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b></p> <p>Derbyniwyd ar ran Mr A Thomas, Mrs M Edwards, Mrs G Harris, Cynghorydd M Hughes a Mrs L Meadows. Nodwyd bod aelodau eraill wedi nodi y byddent yn hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.</p>  |     |

|  |  |
|--|--|
| <p><b>19.70 Datganiadau o Ddiddordeb</b></p> <p>Datganodd Mr J Cunliffe ddiddordeb yn eitem 19.68 Mesurau Arbennig (fel yr uchod 19.68.2.2)</p>  |  |
| <p><b>19.70 Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28.3.19 er cywirdeb ac adolygu'r Cofnod o Weithredoedd Cryno</b></p> <p><b>19.71.1</b> Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir yn amodol ar y newidiadau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygio rhif yr eitem yn ymwneud ag Adroddiad Integredig Ansawdd Perfformiad a bod cofnod 10.51.5 yn adlewyrchu'r drafodaeth o amgylch y posibilrwydd o drefnu cyfarfod arbennig y Pwyllgor Iechyd Diogelwch a Phrofiad (QSE).</li> </ul>   |  |
| <p><b>19.72 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori</b></p> <p><b>19.72.1 Pwyllgor Archwilio 14.3.19</b></p> <p><b>19.72.1.1</b> Cyflwynodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif risgiau a sicrwydd allweddol fel y'i amlinellwyd. Mewn ymateb i gwestiwn o ran sut mae'r broblem o ôl-groniad cleifion allanol yn cael ei ddwyn ymlaen ar lefel Pwyllgor, nododd bod ymateb rheoli i'r adroddiad archwilio a bod yr argymhellion yn cael eu monitro drwy'r pecyn tracio. Bydd trosolwg ehangach o'r cynnydd yn cael ei fonitro drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau. Derbyniwyd yr adroddiad a'i nodi.</p> <p><b>19.72.2 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau 19.3.19</b></p> <p><b>19.72.2.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif risgiau a sicrwydd allweddol fel y'i amlinellwyd. Nododd Is-Gadeirydd y Bwrdd Iechyd gyda siom bod y Pwyllgorau Archwilio a QSE wedi tynnu sylw at bryderon o amgylch archwilio clinigol. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol bod y trosglwyddiad swyddogaeth i Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn caniatáu i fwy o waith gael ei wneud gyda thimau gwella safle a chryfhau ymgysylltiad clinigol. Cydnabuwyd y gwahanol fathau o archwiliad ac mae papur yn cael ei baratoi sy'n amlinellu'r sgôp ac amserlen ar gyfer ymgymryd ag archwiliadau ar draws haenau amrywiol. Derbyniwyd yr adroddiad a'i nodi.</p> <p><b>19.72.3 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 26.3.19</b></p> <p><b>19.72.3.1</b> Awgrymodd Is-Gadeirydd y Bwrdd Iechyd y byddai'r adroddiad yn cael ei dderbyn a nodwyd y byddai sefyllfa ariannol Mis 12 yn cael ei drafod yn nes ymlaen ar yr agenda.</p> <p><b>19.72.4 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 7.3.19</b></p> <p><b>19.72.4.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif risgiau a sicrwydd allweddol fel y'i amlinellwyd. Derbyniwyd yr adroddiad a'i nodi.</p> <p><i>[Gadawodd Dr E Moore y cyfarfod]</i></p> <p>.</p> <p><b>19.72.5 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 2.4.19</b></p> <p><b>19.72.5.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif risgiau a sicrwydd allweddol fel y'i amlinellwyd. Derbyniwyd yr adroddiad a'i nodi.</p> |  |

|   |  |
|---|--|
| <p><b>19.72.6 Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Gwybodeg 14.2.19</b></p> <p><b>19.72.6.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif risgiau a sicrwydd allweddol fel y'i amlinellwyd. Derbyniwyd yr adroddiad a'i nodi.</p> <p><b>19.72.7 Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (HPF) 15.3.19</b></p> <p><b>19.72.7.1</b> Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif risgiau a sicrwydd allweddol fel y'i amlinellwyd. Derbyniwyd yr adroddiad a'i nodi.</p> <p><b>19.72.8 Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth 9.4.19</b></p> <p><b>19.72.8.1</b> Awgrymodd Is-Gadeirydd y Bwrdd Iechyd bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi.</p>   |  |
| <p><b>19.73 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddaru Cofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) (Cymru Gyfan) a Diweddaru Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)</b></p> <p><b>19.73.2 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn</b> cadarnhau'r rhestr o'r rhai a ychwanegwyd ac a dynnwyd oddi ar Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru a Chofrestr Cymru Gyfan o Glinigwyr Cymeradwy.</p>  |  |
| <p><b>19.74 Cytundeb Contractau Ysbyty Countess of Chester 2019/20</b></p> <p><b>19.74.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Cyllid y papur a rhoddodd ddiweddariad ar y sefyllfa o ran llif cleifion Gogledd Cymru i Ysbyty Countess of Chester. Rhoddodd sicrwydd i'r Bwrdd bod trafodaethau adeiladol yn parhau a derbyniwyd bod angen crynhoi'r rhain cyn gynted â phosibl i leihau'r effaith ar gleifion. Cydnabuwyd bod hefyd lefel sylweddol o ddiddordeb y cyhoedd a'r wasg yn y mater hwn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad bod cyfeiriadau sy'n cael eu dychwelyd yn cael eu monitro'n agos, ac roedd yn gyfanswm o ychydig llai na 70 ar ddiwedd mis Ebrill - llawer yn ymwneud ag orthodonteg.</p> <p><i>[Ail ymunodd Dr E Moore â'r cyfarfod]</i></p> <p><b>19.74.2 Penderfynwyd bod</b> y Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad a bydd diweddariad yn cael ei roi ym mhob cyfarfod y Bwrdd hyd nes bydd y broblem hon wedi'i datrys a bydd Pwyllgorau Bwrdd eraill yn rhan fel bo'n briodol.</p> |  |
| <p><b>19.75 Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad</b></p> <p><b>19.75.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr adroddiad a oedd yn crynhoi data perfformiad hyd at ddiwedd mis Mawrth, er roedd rhai dangosyddion (iechyd meddwl) yn ymwneud â hyd at ddiwedd mis Chwefror yn unig. Roedd yn dymuno canolbwyntio ar feysydd gofal wedi'i drefnu a gofal heb ei drefnu.</p> <p><b>19.75.2</b> O ran gofal wedi'i drefnu nodwyd bod pwyslais sylweddol wedi bod ar leihau nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos, fodd bynnag, roedd perfformiad yn parhau'n siomedig yn uwch na'r targed. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd bod gweithgarwch gofal wedi'i drefnu yn cynyddu pob blwyddyn</p>  |  |

|  |    |
|--|----|
| <p>a bod angen canolbwyntio'n awr ar gynllunio ar gyfer 2019-20. Roedd ffigyrau i fod i gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru'r diwrnod wedyn. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cyfres o gynlluniau wedi'u costio i alluogi i ddewisiadau buddsoddi gael eu hystyried.</p> <p><b>19.75.3</b> O ran gofal heb ei drefnu nodwyd bod y rhai oedd yn dod i'r ysbyty yn cynyddu bob blwyddyn ac roedd heriau tymhorol ychwanegol dros gyfnod gwyliau'r Pasg. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd bod gwelliannau gwirioneddol wedi'u gwneud gyda throsglwyddo o ambiwlansys a bod y gostyngiad yn yr oriau a gollwyd yn cyfateb â thri ambiwlans ychwanegol ar gael i gleifion oherwydd nad oeddent yn aros y tu allan i Adrannau Achosion Brys.</p> <p><b>19.75.4</b> Cafwyd trafodaeth. Codwyd cwestiwn o ran y targed ar gyfer codymau a adroddwyd fel digwyddiadau difrifol a nodwyd bod camgymeriad ac y dylai'r targed fod yn ostyngiad yn hytrach na dim. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y dylid dangos y statws cyfredol fel gwyrdd.</p> <p><b>19.75.5</b> Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE at y rhestr aros ddilynol, gan nodi, yn dilyn adroddiadau archwilio allanol a mewnol, bod angen cynnal haeniad risg glinigol y cleifion hynny sydd wedi'u dynodi ar y rhestr aros. Ychwanegodd fod aelodau'r Pwyllgor QSE wedi cael diweddariad ar y cynllun i ymdrin â'r mater hwn a byddai'n parhau i fonitro'n rheolaidd. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrso a Bydwreigiaeth fod risgiau'n cael eu lliniaru i atal i'r sefyllfa ddigwydd eto, a all gymryd hyd at flwyddyn i'w datrys er gellir gweithredu rhai camau gweithredu yn gyflymach - er enghraifft mynd i'r afael â phroblemau gweinyddol, gweithdrefnau a hyfforddiant. Yn yr hirdymor mae angen cynyddu ymgysylltiad â thimau clinigol i ymdrin â'r amrywiaeth mewn arfer.</p> <p><b>19.75.6</b> Gwnaed sylw o ran pwysigrwydd sicrhau yr ymgysylltir â'r gweithlu ac yn meddu ar yr agenda trawsnewid, a fyddai yn ei dro yn cefnogi gwell perfformiad.</p> <p><b>19.75.7 Penderfynwyd bod y</b> Bwrdd yn nodi'r adroddiad ac yn cynorthwyo i ymdrin â'r materion llywodraethu sydd wedi codi.</p> | DC |
| <p><b>19.76 Adroddiad Cyllid Mis 12</b></p> <p><b>19.76.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Cyllid y papur a atgoffodd y Bwrdd bod cynllun ariannol dros dro yn ei le ar hyn o bryd. Roedd sefyllfa mis 12 heb ei archwilio yn £41.3m o or-wariant ble roedd £6.3m yn cynrychioli amrywiant anffafriol yn erbyn cynllun. Amlinellwyd y rhesymau dros y gorwariant misol ar y daflen flaen ac roeddent yn cynnwys y diffyg yn erbyn cynlluniau arbedion, adfachu cyllid cyfeirio at driniaeth, gorwariant gofal iechyd parhaus a gwrthbwysio tanwariant cytundebol. Tynnwyd sylw'r aelodau at grynoded perfformiad yn erbyn targedau ariannol allweddol ym mharagraff 1.2. Hefyd tynnwyd sylw at y ffaith bod lleihad yng nghostau asiantaeth ond cynnydd yng ngwariant locwm. O ran cynlluniau arbedion, rhoddodd adran 3.1 eglurhad o'r diffyg o £6.7m. Yn olaf, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Cyllid bod y cyfrifon yn cael eu paratoi ar hyn o bryd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio.</p> <p><b>19.76.2</b> Mynegodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor F&amp;P siom y Pwyllgor ac fe ail bwysleisiodd y pwyslais gofynnol ar gyfer 2019-20 o ran arbedion a sefyllfa diwedd flwyddyn gyraeddadwy. Darparodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol fanylion eglurhaol o ran y cynnydd mewn gwariant cyflog ar gyfer mis</p>   |    |

Mawrth o groniadau tâl gwyliau. Adroddodd bod cyfrifiad Cymru Gyfan wedi'i wneud a chynghorwyd Byrddau i gynnwys eu hadroddiad ariannol fel mesur rhagofalus gan fod achos cyfreithiol perthynol yn Lloegr. Ychwanegodd hefyd bod y Pwyllgor F&P wedi cytuno y dylid cynnwys dadansoddiad gweithlu yn adroddiadau'r dyfodol.

**19.76.3** Nododd Cadeirydd y Pwyllgor QSE bod y daflen flaen yn nodi nad oedd effaith ar faterion llywodraethu na risgiau ac awgrymodd nad dyma'r achos o anghenraid a dylid ei gynnwys mewn adroddiadau'r dyfodol. Nododd hefyd fod paragraff 2.6 yn cyfeirio at dan wariant mewn gofal cychwynnol a holodd beth oedd hyn yn cyfeirio ato. Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Cyllid bod elfennau'n ymwneud â gwasanaethau meddyg teulu a deintyddol, a bydd yn darparu nodyn eglurhaol y tu allan i'r cyfarfod.

SH

**19.76.4** Nodwyd bod trafodaethau yn y Pwyllgor F&P o ran y rhaglen arbedion wedi awgrymu barn bod cynlluniau yn rhy drafodaethol ac nad oedd o help i ddarparu'r agenda trawsnewid. Cefnogodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y farn hon ac fe atgoffodd yr aelodau bod papur a gafodd ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Mawrth wedi amlinellu'r grwpiau gwelliannau newydd - o ran cylch gorchwyl sydd yn awr wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol. Teimlai y byddai'r rhain yn cyfrannu at sicrhau bod pwyslais dwysach ar gyflawni arbedion. Atgoffodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu'r aelodau bod y Bwrdd yn awr wedi gwneud y penderfyniad o fewn y cynllun ariannol ar gyfer 2018-19 i symud swm sylweddol o arbedion trafodaethol i arbedion gweithlu. Nododd Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y perfformiad da o ran cyflawni cyfyngiad adnoddau cyfalaf, ac fe awgrymodd bod hyn yn ddangosydd cadarnhaol o allu'r sefydliad i reoli ei adnoddau, ac y gall hyn gefnogi'r agenda trawsnewid.

**19.75.5** Crynhodd yr Is-Gadeirydd fod y sefyllfa ariannol yn parhau'n siomedig ac yn heriol, a bod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru o ran y cynllun ariannol. Mae'r Is-Grŵp Arbedion yn awr yn weithredol ac yn adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor F&P. Yn ychwanegol roedd yr adolygiad llywodraethu ariannol PWC yn mynd rhagddo ac i fod i adrodd ar ddiwedd mis Mehefin / dechrau mis Gorffennaf.

**19.76.6 Penderfynwyd bod yr** adroddiad yn cael ei nodi, gan gynnwys sefyllfa ariannol drafft heb ei archwilio o £41.3m.

### **19.77 Adroddiad Sicrwydd Iechyd Meddwl**

**19.77. 1** Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r adroddiad, gan atgoffa aelodau bod y Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl wedi'i gymeradwyo yn 2016 a'r Cynllun Llywodraethu Gwella Ansawdd yn 2018. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y prif welliannau ond hefyd tynnodd sylw at sut gellir gwella'r trefniadau llywodraethu fel rhan o ymagwedd strategol system gyfan, a sut gall gweithio'n agosach gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth helpu i ddatblygu gwasanaethau a modelau gwasanaeth newydd. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu at adroddiad archwiliad mewnol i drefniadau llywodraethu o fewn yr Uwch Adran a chadarnhaodd ei fod yn mynychu Pwyllgor Archwilio ym mis Mai i roi sicrwydd ar welliannau sydd wedi'u gwneud.

*[Ymunodd y Cyng. C Carlisle â'r cyfarfod]*

**19.77.2** Aeth y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ymlaen i dynnu sylw'r aelodau at adrannau allweddol o fewn yr adroddiad a chrynhodd ei fod yn

derbyn bod yr Uwch Adran yn parhau ar daith ond bod gwelliannau bellach yn cael eu hymgorffori, fel y gellir ei ddangos gan ystod o gadarnhad mewn adroddiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Fe sicrhodd y Bwrdd y bydd yr Uwch Adran yn canolbwyntio ar barhau i ymgorffori ystod o welliannau ac i sicrhau cynaliadwyedd wrth wella perfformiad ariannol a pherfformiad yn erbyn y Mesur Iechyd Meddwl.

*[Ymunodd Miss T Owen â'r cyfarfod].*

**19.77.3** Cafwyd trafodaeth. Mynegodd yr Is-Gadeirydd bryder o ran y diffyg eglurder o amgylch yr amserlen ar gyfer cyflawni targedau'r Mesur Iechyd Meddwl a'u cynnal. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod y model gwasanaeth cyfredol yn achosi anawsterau a bod gwir broblemau capasiti o fewn timau cymuned, sydd wedi'u cymhlethu gan gynnydd mewn galw fel y dynodwyd drwy'r gwaith 'gwraidd y mater'. Ychwanegodd yr Is-Gadeirydd fod y meincnodi cenedlaethol wedi cadarnhau bod gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adnoddau da o'i gymharu ag ardaloedd eraill, a gofynnwyd pryd fyddai manylion y dadfuddsoddi arfaethedig o un ardal i ofal cychwynnol ar gael. Nododd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y byddai hyn yn ffurfio rhan o gyfres o achosion busnes, fodd bynnag, roedd angen sicrhau bod opsiynau amgen diogel i dderbyniad yn cael eu darparu cyn newid neu gael gwared â'r model cyfredol. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bod dull siart gant yn cael ei ddefnyddio i alluogi i weithio trwy amserlen yn y Pwyllgor F&P. Dymunai Is-Gadeirydd y Pwyllgor F&P weld cynllun clir a chyflymder a brys gwell. Cwestiynodd hefyd pa mor fforddiadwy yw rhai o'r bwriadau sydd wedi'u hamlinellu yn y papur - derbyniodd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu bod gan yr Uwch Adran orwariant annerbyniol ond nododd bod hyn wedi'i leihau gan gyflawni oddeutu £4m o arbedion. Teimlai gyda gwell gafael a rheolaeth, bod y cynlluniau'n fforddiadwy.

**19.77.4** Cyfeiriodd aelodau at Ffigur 1 o amgylch digwyddiadau difrifol y mae angen adrodd arnynt ac awgrymodd bod angen datblygu'r broses adrodd i roi mwy o fanylion ar natur y digwyddiadau hyn, faint oedd yn parhau i fod ar agor a sut mae gwersi a ddysgwyd wedi'u rhannu. Mynegwyd barn nad yw'r papur yn mynd i'r afael â hanfodion newid gwasanaeth, a rhoddodd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu enghreifftiau o waith cadarnhaol o ran creu'r hinsawdd ofynnol a fyddai yna'n cael ei danategu gan achosion busnes i ganiatáu i fodolau gwasanaeth newid. Gwnaed cais hefyd am gysondeb yn adroddiadau'r dyfodol o ran sut mae ffigyrau'n cael eu harddangos mewn graffiau gan ddefnyddio pwyntiau degol a choma ayb.

*[Ymunodd Mr G Doherty a Mr M Polin â'r cyfarfod]*

**19.77.5** Cyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE at baragraff 6.3 sy'n nodi adolygiad ar reoli gwelyau a llif cleifion a gofynnodd am fwy o wybodaeth. Bydd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn rhannu manylion am y gwaith hwn gyda'r aelodau. Mynegodd Cadeirydd y QSE hefyd bryderon nad oedd yr adroddiad yn tynnu sylw digonol at feysyddsydd angen eu gwella a sut yr ymdrinnir â'r rhain, a bod angen rhoi ystyriaeth i benderfyniadau o ran pa fath o ddata dylid ei gynnwys yn y dyfodol. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau bod cylch busnes yn cael ei adnewyddu ar gyfer y Pwyllgorau QSE a Deddf Iechyd Meddwl.

AR

GLP

**19.77.6** Cofnodwyd sylw o ran elfen gadarnhaol cyd-gynhyrchiant yr adroddiad, a thystiolaeth dda o ymgysylltiad â'r trydydd sector.

|  |                               |
|--|-------------------------------|
| <p><b>19.77.7 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi cynnwys yr adroddiad.</b></p>  |                               |
| <p><i>Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan Mr M Polin.</i></p>   |                               |
| <p><b>19.78 Adroddiad Grŵp Gwelliannau HASCAS ac Ockenden</b></p> <p><b>19.78.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad, gan nodi ei bod yn flwyddyn ers i adroddiad Ockenden gael ei gyhoeddi. Crynhodd bod y papur yn canolbwyntio ar y 33 argymhelliad o'r ddau adolygiad a chadarnhaodd bod diweddariad yn cael ei roi i bob cyfarfod o'r Pwyllgor QSE. Mae'r adroddiad hefyd wedi cael ei rannu â'r Grŵp Rhanddeiliaid ac mae gwaith ar y gweill gyda thimau clinigol i brofi'r mesurau. Teimlai bod yr adroddiad yn gyffredinol yn gadarnhaol a bod yr unig argymhelliad coch yn ymwneud â chofnodion clinigol a oedd wedi'u cymhlethu ac wedi'i oedi gan waith ymholiad gwaed cenedlaethol.</p> <p><b>19.78.2</b> Cafwyd trafodaeth. Gwnaed sylw bod yr argymhelliad i ddatblygu strategaeth gyraeddadwy ar gyfer pobl hŷn sy'n byw â dementia angen mwy o eglurder ac i gyd-fynd yn agosach â'r cynllun iechyd meddwl ehangach. O ran yr argymhelliad i ddatblygu cynllun gwasanaethau clinigol clir ar gyfer pobl hŷn, awgrymwyd mai dim ond ar ôl cael strategaeth glir y gallai hyn ddilyn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth ei bod yn anodd casglu ystod o waith a bod amrywiaeth eang o flaenoriaethau i weithio gyda nhw. Gwnaed sylw pellach bod angen i ymgysylltiad ehangach fod yn ehangach na meddygol a deintyddol a chafodd yr aelodau sicrwydd er bod arlliwiau yn yr adroddiad a oedd yn cyfeirio at gyfranogiad penodol gan staff meddygol a deintyddol, dull y Bwrdd fyddai sicrhau ymgysylltiad effeithiol â phob clinigwr. Croesawodd Cadeirydd y Pwyllgor QSE fformat diwygiedig yr adroddiad, a oedd yn ei gwneud yn llawer haws i alinio cynnydd yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig. Nododd bwynt o gywirdeb bod y canfyddiad ar gyfer Ockenden 1 wedi'i ddyfynnu yn hytrach na'r argymhelliad ei hun, a gofynnodd i hyn gael ei ddiwygio. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bod y risgiau TG a oedd yn seiliedig ar y gweithlu yn awr wedi'u datrys. Nododd y Cadeirydd fod y daflen flaen yn awgrymu y byddai papur ynghylch adnoddau ychwanegol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol, ac amlinellodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth yr heriau o weithio drwy'r costau a phenderfynu pa lefel o adnoddau fyddai ei angen er mwyn cyflawni cam gweithredu. Ychwanegodd bod llawer o waith wedi ei brif ffrydio i raglenni gwaith ehangach ac yn ei barn hi ni fyddai angen nifer sylweddol o adnoddau. Gofynnodd y Cadeirydd bod adroddiadau'r dyfodol yn mabwysiadu'r dull a gymerwyd gydag adroddiadau Mesurau Arbennig o ran pan mae cam gweithredu'n parhau'n ambr neu goch, byddai barn yn cael ei roi ynghylch pa bryd fyddai'n cael ei gyflawni. Holodd y Cadeirydd hefyd sut byddai adborth ffurfiol i'r Bwrdd yn cael ei sicrhau gan y Grŵp Rhanddeiliaid a chadarnhawyd y gofynnwyd i'r Grŵp Rhanddeiliaid ystyried mecanwaith ac amserlen briodol.</p> <p><b>19.78.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi cynnydd yr argymhellion.</b></p> | <p>DC</p> <p>DC</p> <p>DC</p> |
| <p><b>19.79 Diweddariad Strategaeth Gwasanaeth</b></p> <p><b>19.79.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y papur a rhoddodd diweddariad ar y dull arfaethedig ar gyfer datblygu Strategaeth Gwasanaeth erbyn mis Medi 2019. Nododd mai her allweddol fyddai p'un ai gall y sefydliad sicrhau cefnogaeth ei randdeiliaid, a chadarnhaodd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio gyda Byrddau eraill a oedd wedi dechrau'r</p>   |                               |



|  |          |
|--|----------|
| <p>broses o ddysgu o'u dull. Gan ddefnyddio dull a elwir yn 3D (Darganfod, Dadlau, Darparu) bydd papur yn cael ei ddatblygu i gynghori'r Bwrdd o ran p'un ai oedd y strategaeth yn addas i bwrpas neu p'un ai oes angen rhaglen agolygiad manwl a fyddai'n arwain at broses ymgysylltu llawer mwy hirdymor. Nododd y byddai'r gwaith Byw'n Iach Aros yn lach yn ffurfio bloc adeiladau allweddol ar gyfer datblygu strategaeth a bod angen i'r Bwrdd barhau gyda datblygu strategaethau gwasanaeth penodol e.e orthopaedig. Cydnabuwyd bod bylchau adnabyddus yn y strategaeth ond byddai mwy o eglurder erbyn yr hydref, ble dylai strategaeth/cynllun clinigol cenedlaethol hefyd fod wedi'i datblygu gan y Prif Swyddog Meddygol.</p> <p><b>19.79.2</b> Cafwyd trafodaeth. Cydnabuwyd tra bod diogelwch cleifion yn hanfodol i'r strategaeth, mae angen hefyd ystyried cefndir ariannol ac mae'n rhaid i'r strategaeth gwmpasu gofal cychwynnol a chymuned ochr yn ochr â gofal eilaidd. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at waith cadarnhaol o amgylch y llwybr orthopaedig gan gynnwys atal ac opsiynau amgen i lawdriniaeth. Cyfeiriodd Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd at yr amserlen a'r cyfnodau sydd wedi'u hamlinellu o fewn y papur ac awgrymodd y dylid ymgysylltu a chyfathrebu â staff yn gynnar ac yn gadarn i sicrhau bod sgôp y gwaith yn cael ei rannu'n glir. Cadarnhaodd yr Is-Gadeirydd bod egwyddorion y datblygiad strategaeth wedi'u trafod yn y Pwyllgor SPPH a'u bod wedi cytuno bod ymgysylltiad clinigol yn allweddol a bod yn rhaid dysgu o ymgynghoriadau heriol blaenorol gyda'r cyhoedd. Gofynnodd y Cadeirydd i nodyn briffio gael ei ddosbarthu i roi diweddariad i aelodau ar statws cyfredol y cynllun cyfathrebu, a bod diweddariad pellach dros dro'n cael ei roi yng Nghyfarfod nesaf y Bwrdd.</p> <p><b>19.79.3 Penderfynwyd bod</b> y Bwrdd yn ystyried y papur a'r gofyniad i ddatblygu Strategaeth Gwasanaethau Clinigol.</p> | MW       |
| <p><b>19.80 Lleihau Amllder Ysmygu er mwyn gwella iechyd y boblogaeth - y diweddaraf ar gynnydd</b></p> <p><b>19.80.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus y papur a oedd yn rhoi trosolwg o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn BIPBC a diweddariad ar y dull o weithredu'r ddeddfwriaeth di-fwg. Amlygodd bod y papur wedi'i drafod yn y Pwyllgor SPPH a'i fod yn amlinellu ystod o waith cadarnhaol, gan gynnwys meysydd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arwain arnynt ar draws Cymru gyfan. Dywedodd wrth aelodau bod 5% o bob derbyniad ysbyty yn ymwneud ag ysmygu ac ni ddylid diystyru gwerth rhoi'r gorau i ysmygu.</p> <p><b>19.80.2</b> Cafwyd trafodaeth. Awgrymodd yr Is-Gadeirydd y byddai'r rheoliadau newydd yn gofyn am weithio'n agosach gyda phartneriaid Awdurdod Lleol o ran gorfodaeth a byddai'n ddefnyddiol cael gwybod sut mae'r trafodaethau hyn yn datblygu a beth yw'r amserlen ar gyfer cynllun cyfathrebu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus bod y timau cyfathrebu ac iechyd galwedigaethol yn cymryd rhan agos yn hyn ac yn gefnogol iawn. O ran gorfodi'r ddeddfwriaeth nid oedd wedi'i bennu sut bydd hyn yn cael ei gyflawni ond rhagwelir y bydd angen lefel sylweddol o ran y timau ystadau. Gwnaeth yr Aelod Annibynnol (Undeb Llafur) sylw bod angen mwy o eglurder i staff o ran goblygiadau'r ddeddfwriaeth, yn benodol y mater ysmygu mewn cerbydau. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bod partneriaid Undeb Llafur yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y Grŵp Rheoli Tybaco. Cytunwyd hefyd y dylid archwilio cyfleoedd i weithio gyda'r trydydd sector a Heddlu Gogledd Cymru i hybu rhoi'r gorau i ysmygu mewn cymunedau.</p> <p><b>19.80.33 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn:</b></p>   | TO<br>TO |

|   |                     |
|---|---------------------|
| <p>1. Nodi'r cyfle ar gyfer gwelliant parhaus yn erbyn perfformiad cyfredol Haen 1 o ran rhoi'r gorau i ysmegu a phwysigrwydd buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu er mwyn lleihau baich y clefyd yng Ngogledd Cymru.</p> <p>2. Nodi'r datblygiadau i wasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd</p> <p>3. Cadarnhau'r dull sy'n cael ei gymryd i sicrhau bod ein holl ysbytai yn ddi-fwg drwy gyflwyno Rheoliadau Di-Fwg</p>   |                     |
| <p><b>19.81 Adroddiad Blynyddol Rheoli Meddyginiaethau</b></p> <p><b>19.81.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol yr adroddiad a oedd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor QSE ym mis Mawrth 2019. Gwnaed mwy o ymdrech i sicrhau bod yr adroddiad blynyddol yn ymgorffori mwy o faterion gofal cychwynol a chymuned na'r blynyddoedd diwethaf, ac roedd risgiau penodol o amgylch iechyd wedi'u cofnodi. Ychwanegodd bod yr adroddiad yn cynnwys meysydd sylweddol o lwyddiannau.</p> <p><b>19.81.2</b> Cafwyd trafodaeth. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor QSE bod Cylch Busnes y Pwyllgor hefyd wedi cael ei adolygu i gynnwys mwy o ddiweddariadau rheolaidd ar reoli meddyginiaeth gan gynnwys digwyddiadau a phryderon. Cyfeiriodd at gyfeiriad o fewn y papur at raglen diogelwch yn Wreccsam a oedd yn edrych ar dderbyniadau yn ymwneud â meddyginiaeth a bod y Pwyllgor QSE wedi gofyn p'un ai gellir cyflwyno'r arfer da hwn. Byddai hyn yn cael ei drafod yn y Grŵp Ansawdd Diogelwch. Nododd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn cynnwys cyfeiriad at ddatblygiad cynllun gweithredu i leihau camgymeriadau rhagnodi a gofynnwyd bod datganiad sefyllfa'n cael ei ddarparu. O ran digwyddiadau difrifol nododd y Cadeirydd bod yr adroddiad yn nodi bod 10 wedi'u dosbarthu fel digwyddiad trychinebus a gofynnodd am sicrwydd bod adolygiadau wedi'u cynnal a bod gwersi wedi'u dysgu. Cadarnhawyd hyn. Nododd y Cadeirydd hefyd gyda phryder nad oedd adnodd prosiect gwybodeg ar gael bellach i gefnogi pilot rhyddhau electronig. Fe gydnabu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol bod blaenoriaethu'n her a byddai angen i beilotiaid gynnal dull yn seiliedig ar risg.</p> <p><b>19.81.3</b> Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.</p> | <p>EM</p> <p>EM</p> |
| <p><b>19.82 Diweddariad Staff Nyrsio</b></p> <p><i>[Gadawodd Mr Ff Williams y cyfarfod]</i></p> <p><b>19.82.1</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth yr adroddiad a oedd wedi derbyn adborth cadarnhaol yn y Pwyllgor QSE. Codwyd pryder nad oedd y tabl ar dudalen 8 o ran niwed a digwyddiadau difrifol yn cadarnhau faint o achosion oedd yn parhau ar agor a p'un ai oedd y perfformiad yn foddhaol neu'n wael. Ymdrinnir â hyn mewn adroddiadau'r dyfodol.</p> <p><b>19.82.2</b> Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.</p>   | <p>DC</p>           |
| <p><b>19.83 Crynodeb o Fusnes Heb y Cyhoedd y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus</b></p> <p><b>19.83.1</b> Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r papur.</p>  |                     |
| <p><b>19.84 Fforymau Cymru Gyfan ac Eraill</b></p> <p><b>19.84.1</b> Cofnodion Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys 17.10.18</p>  |                     |

|   |    |
|---|----|
| <p><b>Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r papur.</b></p> <p><b>19.84.2 Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys 13.11.18</b><br/>Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r papur.</p> <p><b>19.84.3 Crynodeb Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys 5.2.19</b><br/>Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r papur.</p> <p><b>19.84.4 Nodyn Briffio Cydbwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru 26.3.19</b><br/>Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r papur.</p> <p><b>19.84.5</b> Cafwyd trafodaeth am sut gellir gwella adborth a gwybodaeth o Fforymau Cymru Gyfan o ran perthnasedd i BIPBC a sicrhau gwerth ychwanegol. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n myfyrio ar y drafodaeth hon ac yn ystyried a ddylid darparu papur cryno, neu roi llai o amser agenda ond agenda mwy manwl.</p> | GD |
| <p><b>19.85 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b></p> <p><b>Penderfynwyd y bydd</b> y Bwrdd yn cyfarfod nesaf ddydd Iau 25 Gorffennaf 2019 @10.00am yn Neuadd Reichel, Bangor.</p>   |    |
| <p><b>19.86 Cyfarfodydd Pwyllgorau i gael eu cynnal yn gyhoeddus cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd</b></p> <p><b>Penderfynwyd y dylai'r Bwrdd nodi'r</b> wybodaeth a ddarparwyd.</p>   |    |
| <p><b>19.87 Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>Myfyriodd y Cadeirydd ar gynhadledd Ymchwil Arloesedd Gwella Ansawdd a oedd wedi'i derbyn yn dda.</p>   |    |